# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i'r Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **28 Medi 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Debbie Anne Williams Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32489** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

3.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2018-23, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Awst 2021. Rwyf am eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad. Rwyf yn arbennig o hapus gyda pherfformiad yr Adran, a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

### 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

4.1 **Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif**

4.1.1 Mae Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posibl.

4.1.2 Er gwaethaf y pandemig bu i adeilad newydd Ysgol y Garnedd agor ei drysau yn Hydref 2020 gan ddod yn gartref addysgol newydd i hyd at 420 o ddysgwyr yn ninas Bangor. Mae safle'r ysgol hefyd yn cynnig addysg feithrin a darpariaeth gofal plant cynhwysfawr mewn awyrgylch pwrpasol gyda'r adnoddau gorau posibl. Mae gofod wedi ei gynllunio'n ofalus yn ogystal ar gyfer unedau arbenigol i gefnogi datblygiad

plant ar y safle. Roedd gwaith tîm ardderchog, a chyfathrebu clir yn nodwedd o'r prosiect llwyddiannus hwn sydd wedi cadw o fewn y gyllideb a neilltuwyd ar ei gyfer. Mae'r prosiect wedi ei enwebu ar gyfer tair gwobr Rhagoriaeth Mewn Adeiladwaith yng Nghymru 2021 sef:
*Gwobr Adeiladwaith Digidol (Digital Construction Award)*
*Gwobr Integreiddio a Chydweithio (Integration and Collaborative Working Award)*
*Gwobr Cleient y flwyddyn (Client of the Year Award)*
https://www.cewales.org.uk/cew-awards/awards-2021/
Byddwn yn trefnu agoriad swyddogol ar y cyd â'r ysgol pan fydd yn saff i wneud hynny.

4.1.3 Mae Ysgol y Faenol hefyd yn y broses o gael estyniad sylweddol. Er bod llithriad yn yr amserlen wedi bod o ganlyniad i'r pandemig, mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn dderbyniol iawn gyda rhannau sylweddol o'r estyniad wedi eu hadeiladu erbyn hyn. Bydd yr ysgol yn gallu derbyn 315 o ddysgwyr yn sgil yr estyniad, sydd yn gynnydd o 129 o ddysgwyr. Mae'r adeilad wedi ei gynllunio i fod yn hwb i'r ardal leol hefyd gyda chanolfan gymunedol newydd yn cael ei chodi fel rhan o'r datblygiad. Rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd Tymor y Gwanwyn 2022.

4.1.4 I ateb y gofyn cynyddol am le yn Ysgol Glancegin ym Maesgeirchen rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer ychwanegu dosbarth at adeilad yr ysgol. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau, ac mae'r dosbarth yn barod at ddefnydd yr ysgol ar gychwyn y flwyddyn addysgol hon.

4.1.5 Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth prosiect Ysgol Ein Harglwyddes wedi eu cytuno gyda'r Esgobaeth, sy'n golygu bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am hwyluso trefniadau'r prosiect a chyflwyno'r achos fusnes i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith dichonoldeb cychwynnol wedi'i gwblhau i adnabod yr anghenion, ac mae cytundeb i leoli'r ysgol newydd ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau), ac mae'r lleoliad hwn yn cyd-fynd gyda dyheadau'r gymuned, gyda chynlluniau cysyniadol wedi eu creu ar gyfer sefydlu Ysgol Ein Harglwyddes ar y safle hwnnw.

4.1.6 Yn sgil cyflwr gwael adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Treferthyr, byddwn yn adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu. Mae'r Cabinet eisoes wedi cefnogi'r bwriad i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 o ddysgwyr, ac adleoli'r ysgol i safle amgen y cyfeirir ato fel safle A497 yn unol â'r drefn statudol. Mae heriau penodol wedi bod o ran canfod safle ffafredig, ond bellach mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno i adleoli'r ysgol i safle'r A497, gyda'r gobaith y bydd y gwaith adeiladu'n cychwyn ar y safle tua diwedd y flwyddyn. Edrychaf ymlaen i weld y gwaith adeiladu'n symud yn ei flaen yn y flwyddyn newydd ac i weld y plant yn manteisio ar y cyfleusterau gorau un o Fedi 2023 ymlaen.

4.1.7 Yn sgil amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn Addysg ôl-16 yn Arfon, rhoddodd y Cabinet ganiatâd i'r Adran ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithwir gyda phenaethiaid, Llywodraethwyr, staff, rhieni, dysgwyr a'r gymuned yn ehangach er mwyn cyflwyno'r weledigaeth newydd ar gyfer addysg ôl-16, ynghyd â chasglu barn a syniadau am y ffordd orau i

wireddu'r weledigaeth. Rydym wedi adrodd ar negeseuon cychwynnol yr ymgysylltu yma gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Chwefror eleni.

4.1.8 Mae un prosiect o fewn y Rhaglen Ysgolion G21, sef Cyflwr ac Addasrwydd yn wynebu rhai rhwystrau a heriau sydd yn amharu ar ein gallu i symud ymlaen i weithredu rhai agweddau o'r prosiect gydag ysgolion penodol ar hyn o bryd. Pwrpas y prosiect yma yw gwella cyflwr adeiladau presennol ein hysgolion, gan wneud addasiadau i'r adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas ac yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael. Y prif rwystr i'r prosiect yma ydi effaith prisiau deunyddiau adeiladu yn sgil Covid a Brexit. Mae'r ansefydlogrwydd hwn, a phrysurdeb y maes adeiladwaith yn sgil y cyfnodau clo wedi arwain at sefyllfa ble nad oes ymgeiswyr yn ymgeisio am dendrau i gyflawni gwaith yn ein hysgolion, neu bod prisiau'r tendrau a dderbynnir yn sylweddol uwch na'r gyllideb sydd ar gael i gyflawni'r gwaith. O ganlyniad, rydym wedi oedi gweithredu nifer o addasiadau oedd wedi eu rhaglennu i ddigwydd yn ein hysgolion yr haf yma, gyda'r gobaith y gwnaiff y farchnad adeiladu sefydlogi a phrisiau ostwng rhywfaint dros y misoedd nesaf. Mae bwriad profi'r farchnad gydag ambell dendr dros y misoedd nesaf, ond os bydd y sefyllfa'n parhau, bydd yn rhaid ystyried beth yw'r camau nesaf ar gyfer y ffordd ymlaen.

## 4.2 Gagendor Lles a Chyrhaeddiad

4.2.1 Yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo, mae'r Adran Addysg a'r Cyngor wedi adnabod y gagendor lles a chyrhaeddiad fel un o'r prif flaenoriaethau yn sgil pryder y gallai rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â'r angen am gefnogaeth gyda'u lles.

4.2.2 Er mwyn ymateb i'r pryder hwn, ers Medi 2020 mae pob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu *Rhaglen Cyflymu'r Dysgu* gydag arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr 5-16 oed. Mae blwyddyn bellach ers cyhoeddi'r rhaglen, a dw i'n awyddus i wybod pa effaith y mae'r rhaglen a'r arian wedi ei gael ar les a chyrhaeddiad ein dysgwyr. O ganlyniad dros y misoedd nesaf byddaf yn awyddus i dderbyn adroddiad gan yr Adran a'r gwasanaeth gwella ysgolion (GwE) ar effaith y rhaglen a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i rai dysgwyr.

4.2.3 Dw i'n ymwybodol hefyd fod y gwasanaeth ADYaCh wedi creu llyfrgell o adnoddau i hyrwyddo lles a iechyd meddwl dysgwyr a'u teuluoedd sydd ar gael ar wefan y gwasanaeth, ac mae'r cynhwysedd wedi'i ychwanegu i'r gwasanaeth cwnsela gan yr Adran er mwyn sicrhau cefnogaeth i ddysgwyr yn dilyn y cyfnodau clo a pharhad y pandemig. Bu i drawiadau unigol misol ar y wefan gynyddu o 15,000 ym mis Ionawr 2020 i 130,000 ym mis Ebrill 2020.

4.2.4 Y tu hwnt i'r ysgol, mae dau gyfnod ym mywyd plant a phobl ifanc wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth o ran ymateb i'r gagendor lles a chyrhaeddiad hefyd, sef plant 0-5 oed, ynghyd â phobl ifanc ôl-16. Yn sicr, mae'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, gydag anghysondeb ar draws y sir o ran ystod ac argaeledd gwasanaethau. Mae'r ystod o bartneriaid sydd yn rhan o'r ddarpariaeth ynghyd â chyfeiriad strategol y maes yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i saernïo ein gwasanaethau ni yma yng Ngwynedd. O ganlyniad, rydym yn

bwriadu cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes fydd ag anghenion Gwynedd yn ganolog iddo, gan ymgynghori ar ei gynnwys gyda'r holl ran-ddeiliaid allweddol yn ystod y misoedd nesaf.

4.2.5 Hefyd o sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 wedi eu heffeithio'n anghymesur gan yr argyfwng yn fwy nag unrhyw grŵp oedran arall, rydym wedi llunio adroddiad cychwynnol sydd yn casglu'r holl dystiolaeth ynghyd, ac yn bwriadu ail-ymgynnull y grŵp traws-adrannol a oedd eisoes yn cyfarfod mewn perthynas â'r fframwaith ymgysylltu, gyda'r bwriad bod y grŵp yma'n cymryd gofal o'r rhaglen waith.

4.3 **Trawsnewid y ddarpariaeth ADYaCh**

4.3.1 Pwrpas y prosiect hwn yw trawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegu a chynhwysiad er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn canolbwyntio ar baratoi tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu a Thribiwnlys Addysg Cymru (2018). Daeth y Ddeddf hon yn weithredol ym Medi 2021, gyda rhai elfennau o'r Ddeddf wedi eu hoedi yn y flwyddyn gyntaf e.e. bydd oedi yn y cyfnod ôl-16 gan fod trafodaethau pellach i'w cynnal ynglŷn â chyllido'r agwedd hon.

4.3.2 Er i'r cyfnod clo cyntaf ddigwydd yn fuan ar ôl yr adroddiad diwethaf, mae momentwm y cynnydd mewn paratoad at y ddeddfwriaeth wedi parhau. Bu ansicrwydd ynglŷn â rhyddhau'r Cod Terfynol ar gyfer gweithredu, a pha newidiadau fyddai wedi eu gwneud i'r Cod Drafft, ond rhyddhawyd y Cod terfynol ym mis Mawrth 2021.

4.3.3 Mae Arolwg Parodrwydd Deddf ADY Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd cryf iawn o ran paratoadau'r Awdurdod o ran y Ddeddfwriaeth. Mae'r swyddi statudol angenrheidiol mewn lle ers Ionawr 2021 ac yn gweithredu yn effeithiol. Mae cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd wedi datblygu yn dda drwy gydweithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA). Mae nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid wedi eu cynnal ar gyfer manylu ar agweddau penodol o'r Cod Terfynol. Bu gwaith ar y llwybrau datrys anghydfod i sicrhau bod rhain yn weithredol. Yn y sector blynyddoedd cynnar mae'r systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod yn fuan, a sefydlu prosesau clir wedi ei gyflawni, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector ôl-16 yn parhau. Hefyd mae'r gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ag asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu.

4.3.4 Mae gwaith arloesol yn parhau i gymryd lle o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar-lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar).

4.3.5 Cyn i'r cyfnod pandemig Covid-19 ein taro, bu i'r gwasanaeth (sydd yn gweithredu ar ran Gwynedd a Môn) gomisiynu arbenigwraig yn y maes Addysg Arbennig a Chynhwysiad i gynnal adolygiad trylwyr ac annibynnol o'r gwasanaeth a chyflwyno adroddiad ar ei chanfyddiadau ynghyd ag argymhellion i'w gweithredu. Adroddwyd ar nifer sylweddol o gryfderau yn y maes hwn, gan nodi ychydig o feysydd sydd angen eu cryfhau ymhellach.

4.4 **Strategaeth Addysg Ddigidol**

4.4.1 Mae'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth addysg ddigidol yn hynod uchelgeisiol ac yn arwydd o'r ffordd yr ydym ni'n blaenoriaethu addysg ein plant yma yng Ngwynedd. Yn syml, mae'r strategaeth yma, o'i gweithredu'n llawn am roi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 11. Gwynedd fydd un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

4.4.2 Mae gwaith sylweddol eisoes wedi ei gyflawni, gan gynnwys uwchraddio rhwydwaith ysgolion yn unol â'r safonau digidol addysg, yn ogystal â'r gwaith o drawsnewid dull hidlo'r we. Mae ychydig dros £1.3m wedi ei fuddsoddi yn y rhwydwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. At hyn, mae nifer sylweddol o ddyfeisiadau wedi eu rhannu yn unol â'r strategaeth. Mae digon o *ipads* wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o *Chromebooks* wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 yn cael eu paratoi yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11. Bydd pob un o athrawon Gwynedd yn derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith y bydd hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.

4.4.3 Dyma ddywed adroddiad thematig Estyn am waith yr Awdurdod ym maes dysgu digidol:

> ***Cameo: Dysgu digidol fel etifeddiaeth o'r pandemig***
> *Mae'r awdurdod wedi cyflymu ei gynllun strategol i ddarparu gliniadur i bob disgybl ym mlynyddoedd 5-11, gyda'r dyraniad cyntaf i'w dosbarthu yn y gwanwyn ar gyfer y rhai yng nghyfnod allweddol 4. Hefyd, mae'r strategaeth hon yn cynnwys darparu gliniadur gwaith newydd i bob athro er mwyn hwyluso dysgu digidol. O ganlyniad, mae ysgolion yn gallu cynllunio ar gyfer dyfodol lle mae gan ddysgwyr fwy o fynediad at TGCh, gan sicrhau felly fod medrau digidol newydd a ddysgwyd yn ystod cyfnodau clo wedi'u gwreiddio yn yr addysgu a'r dysgu at y dyfodol.*

**4.5 Cydweithio Meirionnydd**

4.5.1 Pwrpas y prosiect yma yw edrych yn benodol ar sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol yn ysgolion uwchradd Meirionnydd. Mae'r cynnydd ar y prosiect wedi bod yn araf ac wedi ei effeithio yn sgil heriau amlwg y pandemig a phrysurdeb ysgolion uwchradd tuag at ddiwedd tymor yr haf.

4.5.2 Serch hynny, rydym wedi casglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal, megis recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Er hynny, nid yw'r farn hyd yma'n amlygu pryderon amlwg, er bod rhai agweddau angen sylw. Ein bwriad rŵan ydi symud ymlaen i gasglu barn dysgwyr a rhieni ar ansawdd y profiadau y mae'r bobl ifanc yn ei gael yn yr ysgolion, ynghyd â barn staff, ac er sicrhau cymhariaeth deg, byddwn yn gofyn yr un cwestiynau i staff, rhieni a phlant ysgolion Arfon a Dwyfor hefyd. Er hyn, credaf fod rhai pethau y gallwn ei wneud yn syth mewn ymateb i brinder staffio mewn rhai pynciau, a bydd yr Adran yn gweithio gyda'r ysgolion i geisio datrysiad i'r her yma dros y misoedd nesaf.

4.5.3 Yn ogystal, mae canfyddiadau holiaduron rydym wedi eu rhannu gydag ysgolion Meirionnydd wedi adnabod anghenion penodol i gefnogi sgiliau ieithyddol dysgwyr, ac wedi ein galluogi i gael darlun llawn o safon ac anghenion ieithyddol gweithlu addysg Meirionnydd. Bydd yr Adran yn gwneud defnydd o'r wybodaeth i sicrhau bod cynlluniau cefnogi ysgolion a Chynlluniau Clwstwr y Gymraeg yn ymateb i'r anghenion a amlygir.

**4.6 Hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc**

4.6.1 Yn dilyn cyfnod estynedig o addysgu gartref, a'r pryder cenedlaethol a fynegwyd am effaith andwyol Covid ar safonau'r Gymraeg, rydym wedi llunio holiadur penodol er mwyn cael gwell trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr yn ysgolion Gwynedd.

4.6.2 Gofynnwyd cwestiynau er mwyn ystyried sut y caiff sgiliau ieithyddol plant eu heffeithio gan gyfnodau estynedig i ffwrdd o'r ysgol. Gofynnwyd am unrhyw anghenion cefnogi/hyfforddiant penodol y gall fod ei angen ar y gweithlu i gefnogi datblygiad y sgiliau i sicrhau'r cynnydd a ddisgwylir, a gofynnwyd am ymwneud y dysgwyr a'r gwaith a osodwyd iddynt yn ystod y cyfnodau clo, ac am unrhyw rwystrau amlwg.

4.6.3 Holwyd pob pennaeth, ynghyd â chynrychiolwyr o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad ymhob ysgol uwchradd, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Cyfnod Sylfaen. Cytunai'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr bod sgiliau iaith y dysgwyr wedi eu heffeithio o ganlyniad i'r cyfnodau o addysgu o adref. Dengys y data a gasglwyd mai'r prif bryderon yw defnydd cymdeithasol y dysgwyr o'r Gymraeg, parodrwydd dysgwyr i siarad Cymraeg, ynghyd â safon eu patrymau iaith ar lafar. Rydym wedi adnabod felly mai sgiliau llafaredd yw'r pryder mwyaf ar draws y sir. Y camau nesaf fydd rhannu adroddiad yn unigol gyda phennaeth pob ysgol fydd yn cynnwys cynllun posib i dargedu'r gwendidau a amlygwyd a gofyn wrthynt fireinio a chadarnhau'r cynllun gweithredu i ymateb i'r canfyddiadau'n derfynol erbyn 6 Hydref 2021.

4.6.4 Bydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd a'r Cydlynydd Siarter Iaith yn trefnu cyfarfod dilynol gyda phob ysgol i drafod yr adroddiad a hwyluso unrhyw gefnogaeth all fod ei hangen arnynt, boed hynny drwy swyddogion yr Awdurdod, y Cydlynwyr Iaith neu GwE. Bwriedir ail-gyflwyno'r holiadur ar ddiwedd y flwyddyn addysgol er mwyn mesur effaith unrhyw weithredu.

4.6.5 Mae'r data gwaelodlin o'r holiaduron a gylchredwyd i'r ysgolion hefyd wedi ei ddefnyddio fel sail ar gyfer llunio blaenoriaethau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) o'r newydd ar gyfer Gwynedd. Mae'r CSGA yn ddogfen gynllunio statudol 10 mlynedd ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 27 Gorffennaf 2021.

**4.7 Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

4.7.1 Mae Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran a'r Cyngor, ac yn fwyfwy allweddol wrth gwrs yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo pan oedd mwyafrif ein dysgwyr (ar wahân i ddysgwyr bregus a phlant gweithwyr allweddol) yn gorfod aros adref. Yn ddiweddar, mae'r Adran wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig Amddiffyn Plant mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Bu i'r cwrs gael ei beilota yng Ngwynedd yn 2020, a bellach

mae'n cael ei gyflwyno fel rhan o raglen hyfforddi rheolaidd. Mae ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn gwybodaeth am y Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2020. Mae'r gweithdrefnau newydd wedi eu cyflwyno'n ddigidol ar ffurf Ap, ac mae staff allweddol yr Adran ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ar y gweithdrefnau drwy ddarpariaeth gan NSPCC Cymru drwy gytundeb gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

4.7.2 Dyma gameo o adroddiad thematig Estyn ar waith yr Awdurdod ym maes Diogelu:

***Cameo: Hyfforddiant diogelu ychwanegol ar gyfer ysgolion***
*Darparodd yr awdurdod lleol hyfforddiant buddiol mewn materion diogelu ac amddiffyn plant yn ystod y cyfnod clo. Ymgymerodd tua 230 o staff ysgolion â hyfforddiant ar faterion trais domestig fel rhan o'r bartneriaeth a oedd newydd ei sefydlu gan yr awdurdod lleol, Operation Encompass, gyda Heddlu Gogledd Cymru. Yn ogystal, darparodd Swyddogion Cynhwysiant ganllawiau pwysig i arweinwyr ar e-ddiogelwch ar gyfer dysgwyr bregus sy'n wynebu risg cam-fanteisio a hyfforddiant ar y modd gorau i gefnogi gofalwyr ifanc.*

4.7.3 Pwrpas y gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yw darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lân a diogel er mwyn cynorthwyo'r disgyblion gyrraedd eu potensial. Mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn allweddol a chwbl greiddiol drwy gydol y pandemig i sicrhau gwasanaeth glanhau rheolaidd yn ystod y dydd er mwyn sicrhau awyrgylch diogel i ddysgwyr a staff yn ein hysgolion, yn ogystal â sicrhau darpariaeth cinio ysgol. Wedi i'r ysgolion ail-agor, bu i'r canran plant oedd yn cael cinio ysgol aros yn eithaf sefydlog o gwmpas 50% rhwng Ebrill-Gorffennaf 2021, sydd yn cyfateb yn fras i'r canran plant oedd yn cael cinio ysgol cyn y pandemig.

4.7.4 Yn sgil y pandemig bu i staff y Canolfannau Iaith orfod addasu a thrawsnewid y ffordd yr oeddent yn darparu cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg. Yn wir, staff y Canolfannau Iaith oedd y cyntaf i beilota cynnal sesiynau dysgu byw yn ystod Tymor yr Haf 2020, a hynny er mwyn cynnal iaith lafar newydd-ddyfodiaid, ac mae'r arfer o ddysgu cyfunol, sef sesiynau wyneb yn wyneb a dysgu o bell yn parhau'n rhan allweddol o ddarpariaeth y Canolfannau Iaith gyda'r ysgolion. I ategu'r ffordd newydd hwn o gefnogi newydd-ddyfodiaid, ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi gyfoes yng Ngwynedd sydd yn rhoi'r dysgwr yn ganolog wrth eu cefnogi hwy a newydd-ddyfodiaid y sir i gaffael y Gymraeg. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Mae gwaith cysyniadol ar gyfer dyluniadau'r safleoedd addysg drochi newydd yn y dair ardal yn y broses o gael eu cymeradwyo ar hyn o bryd. Gobeithir y bydd y gyfundrefn addysg drochi ar ei newydd wedd yn dod i rym ar 1 Medi 2022.

Dyma gameo o adroddiad thematig Estyn ar waith yr Awdurdod ym maes y Gymraeg:

***Cameo: Cefnogi dysgwyr sy'n newydd i'r iaith Gymraeg***
*Un enghraifft o gydweddiad clos yr awdurdod lleol a GwE yw eu hymagwedd at gynorthwyo ysgolion i ddatblygu medrau iaith Gymraeg disgyblion. Gwelodd rai*

*ardaloedd arfordirol o Wynedd fewnlifiad sylweddol o bobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg yn ystod y cyfnod clo. Ychwanegwyd at yr her o ddarparu ar gyfer eu hanghenion ieithyddol pan ailagorodd ysgolion ym mis Medi gan yr anawsterau wrth gynnal unedau iaith Gymraeg ar eu ffurf draddodiadol. I wrthsefyll hyn, er mwyn cynorthwyo ysgolion cynradd, trefnodd yr awdurdod lleol i'r athrawon arbenigol ddarparu gwasanaeth allymestyn ar sail clwstwr, tra bod swyddog cefnogi gwelliant y clwstwr yn gweithio gyda'r ysgolion i greu ac addasu cynlluniau gwaith Cymraeg.*

4.7.5 Sefydlwyd y Ganolfan Fusnes Ysgolion ym mis Medi 2019 er mwyn cynnig gwasanaethau i ysgolion y sir. Mae'r ganolfan yn cynnig nifer o wasanaethau gan gynnwys rheolaeth ariannol, gweinyddu penodiadau, trefnu athrawon llanw, a sicrhau fod system SIMS yn gyfredol. Mae'r ganolfan wedi adnabod tri blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn, ac ar hyn o bryd ar darged i gyflawni yn unol â'r Cynllun Busnes. Mae'n gadarnhaol iawn fod holl ysgolion cynradd Gwynedd yn prynu mewn i'r gwasanaeth, ac yn gweld gwerth er mwyn sicrhau bod prosesau yn cael eu dilyn yn gywir. Mae'r ganolfan yn esblygu'n barhaus i allu cynnig rhagor o wasanaethau i ysgolion yn y dyfodol.

Rhaid cydnabod mai crynodeb yn unig a geir yn yr adroddiad o holl waith yr Adran a'r ysgolion dros y misoedd diwethaf, ac o ganlyniad hoffwn gydnabod a nodi fy ngwerthfawrogiad i'r gwaith arwrol sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn yr Adran ac yn ein hysgolion mewn ymateb i'r pandemig gyda'r ffocws bob amser ar addysg ein plant ynghyd â diogelwch, iechyd a lles ein holl ddysgwyr a staff.

Yn y cyd-destun yma, cyfeiriaf hefyd at adroddiad thematig Estyn ar Wynedd (Ionawr 2021), sef comisiwn i Estyn gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref 2020, ynghyd ag adroddiad trosolwg cenedlaethol o'r cynnydd a wnaeth Gwynedd yn gysylltiedig â'r argymhellion yn yr adroddiad thematig cyffredinol, ac fe ddyfynnir o'r adroddiadau hyn uchod. Yn y ddau adroddiad roedd cydnabyddiaeth i'r modd y bu i'r Adran ymateb i'r pandemig a chefnogi ysgolion, dysgwyr a staff mewn cyfnod nas gwelwyd o'r blaen.

## 5. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

5.1 Bu i'r Adran Addysg danwario £100k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21. Bydd adolygiad manwl o sefyllfa ariannol 2021/22 yr adran yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad refeniw ddiwedd Awst ar gyfer y Cyngor gyfan, a adroddir i Gabinet 12 Hydref 2021. Yn dilyn adolygiad cychwynnol rhagwelir sefyllfa tanwariant gan yr Adran erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn gyfuniad o danwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb sydd yn cael ei leihau gan orwariant ar benawdau megis Cludiant a gwasanaethau Arlwyaeth a Glanhau Ysgolion.

Mae gan yr Adran Addysg werth £65k o arbedion ar gyfer 2021/22 sydd eisoes wedi eu gwireddu.

## 6. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**
Nodaf yn rhan 4 o'r adroddiad fod datblygiadau sylweddol ag ymhlygiadau ariannol ym maes Addysg, gan gynnwys y buddsoddiad cyfalaf Rhaglen Ysgolion Ganrif 21 crybwyllir yn rhan 4.1 o'r adroddiad. Mae'r adroddiad yn amlygu nifer o ffyrdd mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar fesurau perfformiad yr Adran a bod hyn, ynghyd â Brexit, wedi arwain at oediad mewn ambell i gynllun, fel cynllun Cyflwr ac Addasrwydd amlygir yn 4.1.8.

Gallaf gadarnhau bod y Cyngor wedi derbyn grant Rhaglen Cyflymu'r Dysgu yn 2020/21 a 2021/22 i'r pwrpas amlinellir yn 4.2.1 a 4.2.2

Mae'r adroddiad yn cyfleu darlun teg o sefyllfa'r Adran Addysg o ran ei rhaglen arbedion, gyda'r holl gynlluniau arbedion eisoes wedi eu gwireddu.